**Claire Homard**
Chief Officer (Education and Youth)
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| Your Ref/Eich Cyf | |
| Our Ref/Ein Cyf | CH |
| Date/Dyddiad | 9.7.20 |
| Ask for/Gofynner am | Claire Homard |
| Direct Dial/Rhif Union | 01352 704190 |

Annwyl Riant / Warcheidwad

Rydym yn deall pa mor anodd y bu'r misoedd diwethaf i'n dysgwyr, gyda nifer yn pryderu am golli addysg ac am nad oeddent yn gallu gweld eu ffrindiau a'u hathrawon.

Rydym yn croesawu cynllun y Gweinidog Addysg i ni i gyd baratoi ar gyfer ailagor yr ysgolion yn ddiogel ym mis Medi ac fe fyddwn yn anelu i rannu cymaint o wybodaeth ag y gallwn yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer mis Medi cyn gynted â phosibl.

Fe fydd diwrnodau cynllunio a pharatoi yn cael eu cynnal ar ddechrau'r tymor i adolygu asesiadau risg er mwyn sicrhau y gall ysgolion unigol groesawu disgyblion yn ôl yn ddiogel.

Mae'n bosibl y bydd angen blaenoriaethu rhai grwpiau penodol o ddysgwyr yn ystod wythnos gyntaf y tymor gydag ymagwedd "cyflwyno'n raddol" yn cael ei mabwysiadu. Rydym yn gwneud ein cynlluniau i ailagor yn llwyddiannus gan gynnwys cludiant ysgolion ac arlwyo ysgolion.

O ddydd Llun 14 Medi fe fydd presenoldeb yn yr ysgol yn orfodol. Gofynnir i rieni gysylltu â'u hysgol os na all eu plentyn fynychu am unrhyw reswm cyfreithlon.
Bydd ailddechrau'r ysgol hefyd yn golygu y bydd darpariaeth yr Hwb Gofal Plant ar gyfer gweithwyr allweddol wedi dod i ben.

O ystyried yr amgylchiadau anarferol presennol, rydym yn sensitif i'r ffaith y gall gweithwyr sydd wedi eu lleoli yn yr ysgolion a'u teuluoedd fod o dan bwysau emosiynol, ariannol a seicolegol ychwanegol eu hunain. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n hysgolion a lleoliadau addysgol i gefnogi pawb yn ystod y cyfnod hwn.

Cadwch lygad ar wefan yr Awdurdod Lleol www.siryfflint.gov.uk am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda a hefyd cadwch lygad am ohebiaeth uniongyrchol gan ysgol eich plentyn.

County Hall, Mold. CH7 6ND
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND
www.siryfflint.gov.uk

YN GADARN O BLAID · POBL ANABL
POSITIVE ABOUT · DISABLED PEOPLE

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg

Yn olaf fe hoffem ddiolch i chi. Mae'r misoedd diwethaf wedi gosod straen ychwanegol ar bawb ac yn arbennig i rieni a gofalwyr sydd wedi gorfod addasu yn gyflym i addysgu eu plant adref.

Rydym yn gobeithio eich bod yn cadw'n ddiogel ac yn iach.

Yn ddiffuant

Claire Homard
Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid